



Ein cyf/Our ref: OQ57232

Rhys ab Owen AS  
Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru

[Rhys.abOwen@senedd.cymru](mailto:Rhys.abOwen@senedd.cymru)

06 Rhagfyr 2021

Annwyl Rhys ab Owen

Yn ystod cwestiynau llafar, ymrwymais i anfon ymateb atoch ynghylch a oedd rheswm cyfreithiol pam nad oedd y gwaharddiad ar gladin hylosg yn ymestyn i adeiladau o dan 18m.

Er nad oes gwaharddiad cyfreithiol uniongyrchol ar uchder gwaharddiad, mae angen i bob penderfyniad sy'n ymwneud â graddau'r gwaharddiad gael ei gefnogi gan dystiolaeth glir, cyfiawnhad cadarn ac yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn nodi ein bwriad i wahardd cladin llosgadwy ar adeiladau penodol dros 18m o uchder rhwng 19 Gorffennaf a 13 Medi 2018. O ganlyniad i'r ymgynghoriad ehangwyd yr adeiladau yng nghwmpas y gwaharddiad i gynnwys ysbytai, ond nid oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau gwelliant i'r trothwy o 18m lle'r oedd y gwaharddiad yn berthnasol. Gwnaed Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2019 yn unol â chanlyniad yr ymgynghoriad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales](mailto:Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig uchder o 18 metr ar gyfer gwahardd cladin llosgadwy. Rydym yn deall bod uchder o 18m mewn Rheoliadau Adeiladu wedi'i gysylltu'n hanesyddol â gallu offer y gwasanaeth tân ac achub i gyrraedd yr uchder hwn. Fodd bynnag, mae'n drothwy lle mae dyluniad adeiladau'n newid. Er enghraifft, mae gofynion eraill hefyd sy'n berthnasol uwchlaw'r uchder o 18m megis;

- i. Darparu lobiau neu goridorau a ddiogelir rhag tân lle mae gan adeilad lawr uwch na 18m;
- ii. Dylid adeiladu pob grisiau a landin i ddianc rhag tân o ddeunyddiau o hylosgedd cyfyngedig os yw'n gwasanaethu unrhyw lawr sydd â lefel llawr sy'n uwch na 18m uwchben lefel y ddaear neu lefel mynediad;
- iii. Dylid darparu siaffftiau diffodd tân sy'n cynnwys liffftiau diffodd tân i adeiladau sydd â llawr dros 18m uwchben lefel mynediad cerbydau'r gwasanaeth tân ac achub

Rydym yn ymwybodol o'r galwadau am drothwy is, ond dylai tystiolaeth gefnogi gwelliannau. Mae Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiad o wahanol rannau o ddiogelwch tân ac mae fy swyddogion yn trafod â'u cymheiriaid ynghylch canlyniadau'r gwaith hwn.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad  
Counsel General and Minister for the Constitution